Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

**Cyngor i Gleifion**

***Enterobacteriaceae* sy'n cynhyrchu Carbapenemase (CPE)**

---

**Beth mae 'Enterobacteriaceae sy'n cynhyrchu carbapenemase' yn ei olygu?**
Enterobacteriaceae yw bacteria (germau) sy'n byw'n ddiniwed ym mherfedd pobl. Gelwir hynny'n 'gytrefu' (dywedir fod person yn 'gludydd'). Fodd bynnag, os bydd y bacteria'n mynd i'r lle anghywir fel y bledren neu lif y gwaed, gallant achosi haint. Carbapenems yw un o'r mathau mwyaf pwerus o wrthfiotigau. Ensymau (cemegolion) yw carbapenemases a wneir gan rai rhywogaethau o'r bacteria hyn, sy'n caniatáu iddyn nhw ddinistrio gwrthfiotigau carbapenem ac felly dywedir fod y bacteria'n ymwrthol i'r gwrthfiotigau.

**Pam fod ymwrthedd carbapenem o bwys?**
Dim ond yn yr ysbyty ac yn uniongyrchol i mewn i lif y gwaed y gellir rhoi gwrthfiotigau carbapenem. Hyd yn awr, mae doctoriaid wedi dibynnu arnyn nhw i drin heintiadau 'anodd' arbennig yn llwyddiannus pan fydd gwrthfiotigau eraill wedi methu â gwneud hynny. Mewn ysbyty, lle mae yna lawer o gleifion sy'n agored i niwed, gall lledaeniad bacteria sy'n ymwrthol beri problemau.

**Oes angen trin cludiad Enterobacteriaceae sy'n cynhyrchu carbapenemase neu heintiad ag o?**
Os yw person yn gludydd Enterobacteriaceae sy'n cynhyrchu carbapenemase (a elwir weithiau'n CPE), does dim angen eu trin. Ond, os yw'r bacteria wedi achosi haint yna bydd angen gwrthfiotigau yn ôl cyngor gan Ficrobiolegydd Ymgynghorol.

**Sut allwn i 'godi' Enterobacteriaceae sy'n cynhyrchu carbapenemase?**
Weithiau gellir dod o hyd i'r bacteria hyn yn byw'n ddiniwed ym mherfedd pobl ac felly gall fod yn anodd dweud pryd neu ym mhle y gwnaethoch chi ei godi.

Fodd bynnag, mae yna fwy o siawns i chi godi'r bacteria hyn os buoch yn glaf mewn ysbyty dramor **neu** mewn ysbyty yn y Deyrnas Unedig sydd wedi bod â chleifion sy'n cario'r bacteria, **neu** os buoch chi mewn cysylltiad agos â chludydd mewn ysbyty **neu** yn y gymuned. Os yw unrhyw un o'r rhain yn gymwys i chi, ac mae angen eich derbyn i ysbyty, fe drefnir sgrinio ac fe allech gael eich rhoi mewn ystafell sengl hyd nes y bydd canlyniadau'r profion yn hysbys, o leiaf.

**Sut ofal fyddaf i'n ei gael yn yr ysbyty?**
Mae'n bosib y cewch eich rhoi mewn ystafell sengl tra byddwch yn yr ysbyty ac os cewch eich derbyn ar unrhyw adeg wedi hynny. Mae'n bosib y gofynnir i chi ddarparu nifer o samplau i'w hanfon i'r labordy i wirio a ydych yn cario'r bacteria neu a oes gennych chi haint ag o. Mae'n debyg y cymerir y rhain yn wythnosol yn ystod eich arhosiad. Efallai hefyd y cewch brofion os buoch mewn cysylltiad agos â

chlaf yn yr ysbyty sydd wedi'i gael i fod ag organeb sy'n ymwrthol. Gallai'r samplau gynnwys e.e. y man y bydd drip yn mynd i mewn i'r croen, swab rhefr h.y. sampl a gymerir drwy roi swab fymryn y tu mewn i'ch rectwm (pen ôl), a/neu sampl o ymgarthion. Cewch wybod y canlyniadau o fewn dau i dri diwrnod ond ni fydd yr un o'r mesurau hyn yn llesteirio eich gofal o gwbl.

**Sut ellir atal lledaeniad *Enterobacteriaceae* sy'n cynhyrchu carbapenemase?**
Os yw claf mewn ysbyty'n cludo'r bacteria hyn gall fynd i amgylchedd y ward a'i drosglwyddo ymlaen drwy gyffyrddiad uniongyrchol â chlaf arall. Oherwydd hynny, efallai y cewch eich rhoi mewn ystafell sengl i helpu i atal lledaeniad. Mae'n rhaid i weithwyr gofal iechyd olchi a glanhau eu dwylo'n rheolaidd. Fe fyddan nhw'n defnyddio menig a ffedogau (neu ŵn) wrth ofalu amdanoch chi. Yr hyn sydd bwysicaf i chi ei wneud yw golchi eich dwylo'n dda â dŵr a sebon, yn enwedig ar ôl bod yn y toiled. Dylech osgoi cyffwrdd ag unrhyw ddyfeisiadau meddygol (os oes rhai gennych chi) fel eich tiwb catheter wrin a'ch drip mewnwythiennol, yn enwedig yn y pwynt lle mae'n mynd i mewn i'r corff neu'r croen. Fe ofynnir i ymwelwyr olchi eu dwylo wrth ddod i mewn ac wrth adael yr ystafell ac mae'n bosib y gofynnir iddyn nhw wisgo menig a ffedog (neu ŵn) yn enwedig os byddan nhw'n cynorthwyo â'ch gofal.
Gall glanhau amgylcheddol effeithiol a hylendid dwylo da gan bawb, y staff, y cleifion ac ymwelwyr, leihau'r risg o ledaeniad yn sylweddol.

**Beth am yr adeg y byddaf yn mynd adref?**
Er bod yna siawns y gallech ddal i fod yn gludwr pan ewch chi adref, fe fydd hynny'n diflannu'n eithaf aml gydag amser. Nid oes angen unrhyw fesurau na thriniaeth arbennig; bydd unrhyw haint wedi ei drin cyn eich rhyddhau. Dylech fwrw ymlaen fel arfer gan gynnal hylendid dwylo da yn enwedig ar ôl defnyddio'r toiled. Os bydd gennych unrhyw bryderon efallai yr hoffech gysylltu â'ch Meddyg Teulu am gyngor.

Cyn i chi adael yr ysbyty, gofynnwch i'r doctor neu'r nyrs roi llythyr neu gerdyn i chi'n rhoi gwybod eich bod wedi dioddef haint neu eich bod wedi eich cytrefu yn y gorffennol/yn awr ag *Enterobacteriaceae* sy'n cynhyrchu carbapenemase. Bydd hynny'n ddefnyddiol o ran eich gofal yn y dyfodol ac mae'n bwysig eich bod yn gwneud staff iechyd a gofal cymdeithasol yn ymwybodol o hyn e.e. pan fyddwch yn mynd i apwyntiad cleifion allanol neu pan fydd y tîm nyrsio yn y gymuned yn ymweld â chi. Pe byddai i chi neu aelod o'ch teulu gael eich derbyn i ysbyty, dylech roi gwybod i staff yr ysbyty eich bod yn gludwr neu y buoch chi'n gludwr a dangos y llythyr/cerdyn iddyn nhw.

## SUT I GYSYLLTU Â ATAL HEINTIAU A TÎM RHEOLI

| | |
|---|---|
| **Ysbyty Nevill Hall** | **01873 732048** |
| **Ysbyty Royal Gwent** | **01633 238101** |
| **Ysbytai cymuned** | **07903 324603** |

**Ym mhle mae dod o hyd i fwy o wybodaeth?**
Gofynnwch i'ch doctor neu eich nyrs esbonio hyn i chi'n fanylach. Fe allan nhw hefyd gysylltu â'r Tîm Atal a Rheoli Heintiau os bydd arnoch angen gwybodaeth bellach ar reolaeth CPE.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a gwefannau Iechyd Cyhoeddus Lloegr yn ffynhonnell gwybodaeth arall:

http://www.hpa.org.uk/Topics/InfectiousDiseases/InfectionsAZ/CarbapenemResistance

Cynhyrchwyd y wybodaeth hon o Becyn Cymorth Iechyd Cyhoeddus Lloegr gyda chyfeiriad at y 'Guideline: Prevention and control of multi-drug-resistant Gram-negative bacteria: recommendations from aJoint Working Party'. APR Wilson et al. Journal of Hospital Infection 92 (2016) S1-S44

**SUT I GYSYLLTU Â ATAL HEINTIAU A TÎM RHEOLI**

| | |
|---|---|
| **Ysbyty Nevill Hall** | **01873 732048** |
| **Ysbyty Royal Gwent** | **01633 238101** |
| **Ysbytai cymuned** | **07903 324603** |